

Gwyddor Ceffylau

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Hydref 2009

Taith Ceffylau

Ar 29ain Ebrill cychwynnodd 26 myfyriwr BSc, HND a FDSc ar daith 5 diwrnod gyffrous i Newmarket gan gynnwys ymweliadau â: Canolfan AI Twemlows Hall; Plantation Stud; Dalham Hall Stud, sef gre Sheik Mohammed, lle cawson ni ginio ardderchog!; Tattersalls Breeze Up Sales (diolch am y te prynhawn hyfryd!); The Horse Forensic Labs; The National Stud; ac allan am ymweliad plygeiniol i'r 'galops' gyda Declan Daly. I gwblhau'r daith fe gawsom ddiwrnod yn y rasy - y 2000 Guineas. Mae'n rhyfeddol mor wahanol roeddem ni'n edrych, a phawb yn eu gwisgoedd gorau!! Cafodd pawb amser gwych, a rhaid i fi atgoffa pawb trwy'r amser mai gwaith oedd hyn ac nid gwyliau!! ac nad oedd modd i ni ffitio ebol i mewn i gefn y bws mini!!!



Allan yng 'ngalopau' Warren Hill yn y bore bach



Rhoi 'polos' i Amberley House yn y National Stud



Pawb yn eu gwisgoedd gorau am y 2000 Guineas

Llongyfarchiadau a Phob Lwc i bawb sy'n graddio eleni

Pob lwc i'n holl fyfyrwyr sy'n graddio eleni. Mae llawer ohonynt wedi cael swyddi'n barod ac mae llawer yn symud ymlaen i astudiaethau uwchraddedig, gan gynnwys nifer sy'n mynd ymlaen i'n MSc Gwyddor Ceffylau - Pob lwc i chi gyd a chofiwch gadw mewn cysylltiad.

Cynhadledd MSc mewn Gwyddor Ceffylau yng Ngregynog

Mwynhaodd yr MSc sesiwn arall i roi sialens i'r ymennydd yng Nghanolfan astudio'r Brifysgol, Gregynog. Mae'r gynhadledd hanner blynedd hon yn boblogaidd iawn ymhlith myfyrwyr ac mae'n gyfle iddynt gyfarfod ag arbenigwyr blaenllaw ym maes gwyddor ceffylau ac â darlithwyr mewn colegau/prifysgolion eraill (ein graddedigion ein hunain, yn aml) ac felly i ddatblygu cysylltiadau ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Y tro hwn roedd y siaradwyr yn cynnwys: Dr Robert Eustace (Laminitis Clinic); yr Athro Duncan Hannant (Athro er Anrhydedd ym Mhrifysgol Aberystwyth, a chanddo gysylltiadau ag Ysgol Milfeddygaeth Nottingham ac â'r Ymddiriedolaeth Iechyd Anifeiliaid); Dr John Newcombe (Milfeddyg arbenigol atgenhedlu a gre); Ann Bondi (Rheolwr-Gyfarwyddwraig, Solution Saddles Ltd) a Kate Comer (perchennog Horse Check, monitro parasitiaid).

Rhestr Cysiau

MSc

Gwyddor Ceffylau (D391)

Diploma Uwchraddedig

Gwyddor Ceffylau

Tystysgrif Uwchraddedig

Maetheg Ceffylau

Bridio Ceffylau a Rheoli Bridfeydd

BSc Anrhydedd

Gwyddor Ceffylau (D322)

Gwyddor Chwaraeon a Cheffylau (CD64)

Astudiaethau Ceffylau (D325) (1-flwyddyn ychwanegol)

Gradd Sylfaen

Astudiaethau Ceffylau (D324)

Diploma Genedlaethol Uwch

Astudiaethau Ceffylau a Busnes (1HND)

Astudiaethau Ceffylau (423D)

Cyswllt

Carol Green:

Mina Davies Morel

Tony O'Regan:

(01970) 624471

cgg@aber.ac.uk

mid@aber.ac.uk

tor@aber.ac.uk



A luxury venue for the MSc Equine Science Colloquium

Ymchwil mewn Gwyddor Ceffylau

Mae llawer o'n myfyrwyr naill ai newydd orffen eu traethawd Anrhydedd 3edd flwyddyn neu'n cychwyn arno. Nid yn unig y mae'r traethawd hwn yn cynrychioli y darn unigol mwyaf o waith ar gyfer eu gradd ond hefyd mae'n gyfle i arbenigo ar agwedd sydd o ddiddordeb neilltuo iddynt. Bydd myfyrwyr bob amser yn taro ar rai syniadau gwych, ond dwy enghraifft nodedig eleni yw:

Traethawd Catherine Egan, a ddangosodd fod micro-organeddau ciliedig ('ciliates') yn bresennol ym mherfeddion ebolion yn llawer cynharach nag a gofnodwyd o'r blaen. Mae micro-organeddau ciliedig ymhlith y micro-organeddau o fewn perfeddion ceffylau sy'n angenrheidiol i dreulio ffeibr, ac mae'r adeg y gellir eu hadnabod o fewn perfeddion ebol yn dweud llawer wrthym am sut, a phryd, y bydd yr ebol yn medru dechrau ymdopi ag ymborth caled yn hytrach na llaeth yn unig. Mae gwaith Catherine yn cael ei ysgrifennu fel erthygl ar gyfer cyhoeddiad gwyddonol a adolygir gan gyd-academyddion – Da lawn Catherine.




Ffotograff o *Blepharocorys* sp., sy'n nodweddiadol o'r math o ficro-organedd ciliedig a ddarganfyddir ym mherfeddion ebolion

Traethawd Alice Dickeson, a archwiliodd y pwysau y mae cyfrwy a marchog yn eu rhoi ar gefn ceffyl a sut mae gwahanol fathau o lieiniau cyfrwy yn effeithio ar hyn. Bu'r traethawd hwn mor llwyddiannus fel y prynodd y Brifysgol fat synhwyro pwysau o'r safon uchaf a fydd ar gael ar gyfer traethodau myfyrwyr eraill yn y dyfodol. Mae Alice yn mawr obeithio dal ymlaen â'i hymchwil fel myfyrwraig PhD ym Mhrifysgol Aberystwyth ac fe fydd y mat synhwyro pwysau yn rhan hanfodol o'i phrosiect – da iawn a Phob Lwc Alice.

A.



B.



Adnabod brigau pwysau ar draws y cefn, gan ddefnyddio mat synhwyro pwysau. Adwaenir brigau pwysau yn y drefn glas golau (dwyster uchel); melyn, marŵn, glas tywyll (dwyster isel). Yn achos ceffyl a farchogir heb gyfrwy (A) fe ellir gweld ardaloedd o bwysau uchel iawn (glas golau), ynghyd ag ardal o bwysau uchel (melyn). Gyda chyfrwy, mae pwysau'n cael eu taenu'n fwy gwastad (B).



Downloading on to the computer the recording of the relative pressures placed on the horse's back by the rider and saddle, the pressure pad can be seen as the green mat under the back horse's saddle cloth

Llwyddiant parhaus Paula Clarke

Mae Paula yn dal i hyfforddi yng Nghanolan Geffylau Lluest ar gyfer ei gyrfa fythol llwyddiannus fel marchoges Para Radd 2. Dechreuodd Paula ei llwyddiant drwy farchogaeth ceffyl y Brifysgol 4Sox, Adran D Cob Cymreig, a ddofwyd ac a gynhyrchwyd gan fyfyrwyr yng Nghanolan Geffylau Lluest. Ond erbyn hyn mae hi wedi dod mor llwyddiannus nes ei bod yn marchogaeth ceffyl y Brifysgol Haeron Antonio, ceffyl Twymwaed ('Warmblood') 17hh a hyfforddwyd i lefel uwch. Mae'r ddau geffyl yn cael eu marchogaeth yn rheolaidd gan fyfyrwyr ceffylau ar gyrsiau HND a FdSc.

Ar hyn o bryd mae Paula'n dod o Lanymddyfri ond mae hi'n symud i Geredigion fel y bydd hi'n medru dal i hyfforddi gyda Dr Carol Green a'r hyfforddwyr ceffylau yn Lluest. Mae gan Paula broblem orhyblygrwydd sy'n rhwystro ei chyhyrau a'i gewynnau rhag cynnal ei fframwaith ysgerbydol; mae hi wedi dod trwy ganser ar ôl cael triniaeth i dynnu tyfiannau o'i chlun. Mae Paula'n berson positif iawn, yn defnyddio cadair olwyn ond yn llwyddo i fyw bywyd annibynnol. Mae hi'n ysbrydoliaeth i ni gyd ac yn ddiolchgar am y gefnogaeth y mae'r Brifysgol wedi ei rhoi.

Y cam nesaf i Paula fydd Hickstead International, 23ain - 27ain Mehefin, a Hartpury International, 15fed - 18fed Gorffennaf, a hithau wedi'i gwahodd i gymryd rhan yn y ddwy gystadleuaeth ar sail ei llwyddiant diweddar – Pob Lwc Paula a phwy a wŷr, Paralympics 2012?



Paula'n marchogaeth yng Nghanolan Geffylau Lluest

Gweithgareddau Canolfan Geffylau Lluest

Mae Canolfan Geffylau Lluest wedi bod yn brysur eto y tymor hwn. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau sydd wedi bod yn digwydd ac wedi'u mwynhau gan bawb:

Ym mis Ionawr fe gynhaliodd y Beirniad Dressage Rhyngwladol Mr Andrew Gardner glinigau preifat i staff a myfyrwyr ceffylau. Cafodd myfyrwyr Gradd Sylfaen, HND a Gwyddor Ceffylau gyfle i wyllo Mr Gardner wrth iddo drin ceffylau o lefel Nofydd hyd at lefel Uwch. Roedd e'n eglur ac yn drefnus iawn ei feddyliau, a hynny wrth fodd pawb a fu'n bresennol, ac yr oedd yn brofiad dysgu gwych i bawb.

Ym mis Mawrth fe gynhaliodd Mrs Jane Goldsmith, Beirniad a Hyfforddwraig Dressage FBHS rhestr 1, ddosbarth meist'r mewn dysgu marchogion sy'n wynebu heriau corfforol yn ogystal â rhai abl o gorff. Mae Mrs Goldsmith yn hyfforddwraig ac yn arholwraig gyda Chymdeithas Ceffylau Prydain a chanddi ddiddordeb arbennig mewn Marchogion Para. Roedd y sesiynau o ddiddordeb mawr i bawb, y cyfranogwyr a'r gynulleidfa fel ei gilydd. Roedd Mrs Goldsmith yn gefnogol, ond ar yr un pryd roedd hi'n gofyn llawer, fel bod marchogion abl o gorff a'r rhai a chanddynt heriau corfforol fel ei gilydd yn cael budd o'r sesiynau ac yn gwella o'u herwydd. Roedd y diwrnod hwn yn arbennig o ddefnyddiol i hyfforddwyr dichonol, a hwythau'n elwa o wyllo ei dull o ddysgu.

Cynhaliwyd y gwrsyll Dressage Prydeinig i Oedolion rhwng y 15fed a'r 18fed o Ebrill, a bu'r hyfforddwyr dressage gwadd, a'r seicolegydd chwaraeon, i gyd yn gweithio i wella sgiliau'r marchogion, yn enwedig o safbwynt eu llwyddiant mewn cystadlaethau.

Ym mis Chwefror fe roddodd Paddy Davies, Ceiropractydd Ceffylau ac Ymarferydd McTimmony, ddarlith i'r holl fyfyrwyr ceffylau, a phawb yn ei mwynhau'n fawr. Mae Paddy yn gyfathrebwr gwych ac fe adawodd i'r myfyrwyr 'roi cynnig arni'; o ganlyniad mae cwpl ohonynt yn awr yn dymuno hyfforddi mewn therapi amgen ar ôl iddynt adael Aberystwyth.

Yn ogystal â'r digwyddiadau arbennig hyn roedd y cystadlaethau penwythnos arferol, sef neidio ceffylau a dressage, yn cael eu cynnal drwy gydol y gaeaf, a cawsant eu cefnogi crystal ag erioed.



Myfyrwyr yn cynhesu yn arena allanol Lluest yn barod am eu cystadleuaeth dressage